# E-Fwletin Atal Trais

**Lluniwyd gan Uned Atal Trais Cymru – Chwefror 2022**

Annwyl gydweithwyr,

Croeso i e-fwletin Uned Atal Trais Cymru.

Mae'n falch gennyf rannu manylion ail gam ein hymgyrch atal aflonyddu rhywiol, #DiogelDweud â chi. Datblygwyd yr ymgyrch yn y lle cyntaf ar y cyd â'r ymgyrch Good Night Out a gyda chymorth gan Cymorth i Ferched Cymru.

Nid yw aflonyddu rhywiol byth yn iawn, a thrwy beidio â'i herio, gall ddatblygu'n drais rhywiol mwy difrifol. Ein gobaith gyda'r ymgyrch hon yw annog dynion i gamu i mewn a herio eu ffrindiau sy'n ymddwyn yn aflonyddgar mewn ffordd ddiogel. Bydd yr ymgyrch yn cael ei chyflwyno ar y cyfryngau cymdeithasol a thrwy hysbysebu mewn mannau gwahanol (place advertising) mewn gorsafoedd trenau, safleoedd bws a'r tu mewn i dafarndai a chlybiau yn Ne Cymru tan fis Mawrth 2022.

Byddem yn gwerthfawrogi cefnogaeth y partneriaid i rannu'r ymgyrch yn fawr, a gallwch ddod o hyd i ragor o fanylion am hyn isod.

Ar hyn o bryd, mae Uned Trais ac Agored i Niwed y Swyddfa Gartref, gyda chymorth Cyfarwyddwr Uned Atal Trais yr Alban, yn cynnal archwiliad o Uned Atal Trais Cymru. Maent eisoes wedi cynnal nifer mawr o gyfweliadau ac edrychaf ymlaen at glywed y canfyddiadau ac ymateb iddynt yn fuan. Yn y cyfamser, hoffwn ddiolch yn ddiffuant i bawb sydd wedi cael cyfweliad ac sydd wedi cyfrannu at yr adolygiad hwn.

Rydw i wedi crybwyll Adolygiadau o Laddiadau gan Ddefnyddio Arfau Ymosodol mewn Cylchlythyrau yn y gorffennol a hefyd wedi sôn am gynllun peilot a fydd yn cael ei gynnal yn Ne Cymru. Bydd yr Uned Atal Trais yn parhau i gefnogi datblygiad yr adolygiadau hyn. Fodd bynnag, mae'r ddeddfwriaeth sy'n galluogi'r cynlluniau peilot hyn yn debygol o ddigwydd yn hwyrach na'r disgwyl, fwy na thebyg yn ystod Gaeaf 2022.

Fel bob amser, mae croeso i chi gysylltu â ni os hoffech gael rhagor o wybodaeth am yr Uned a bod yn rhan o'n gwaith. Gobeithio y byddwch yn mwynhau'r Cylchlythyr hwn a gwnewch yn siŵr eich bod yn aros yn ddiogel ac yn iach.

Jon Drake
**Cyfarwyddwr**
Uned Atal Trais Cymru
@WalesVPU

Nid yw dolenni i wefannau, cynhyrchion na gwasanaethau allanol yn gyfystyr â chymeradwyaeth swyddogol gan Uned Atal Trais Cymru.

**Cynnwys yr e-Fwletin:**

## Cynnwys:

- #DiogelDweud – Pŵer i'r Gwyliwr

**Ymchwil ac Adnoddau:**

- Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol
- Risg a Niwed i Grwpiau sy'n Agored i Niwed
- Cam-drin Plant a Phobl Ifanc
- Yn y newyddion

## #DIOGELDWEUD – PŴER I'R GWYLIWR










**#DiogelDweud – Pŵer i'r Gwyliwr**

Yn dilyn peilot pedair wythnos addawol, bydd cam dau ymgyrch #DiogelDweud yn cael ei gyflwyno rhwng mis Chwefror a mis Mawrth 2022.

Nod yr ymgyrch yw atal achosion o aflonyddu rhywiol drwy annog gwylwyr i ymateb yn rhagweithiol i unigolion sy'n ymddwyn mewn ffordd amhriodol a niweidiol. Yn fwy penodol, ei nod yw annog a grymuso pobl i godi eu llais pan fyddant yn gweld eu ffrind yn dangos yr ymddygiadau hyn.

Yn y cam hwn, bydd yr ymgyrch yn cael ei chyflwyno yn Ne Cymru yn bennaf, drwy gyllid gan Gronfa Safety of Women at Night (SWAN). Fodd bynnag, rydym yn annog partneriaid ledled

Nid yw dolenni i wefannau, cynhyrchion na gwasanaethau allanol yn gyfystyr â chymeradwyaeth swyddogol gan Uned Atal Trais Cymru.

Cymru i rannu'r ymgyrch ar eu sianeli er mwyn lledaenu'r neges bwysig bod gan bob un ohonom rôl i'w chwarae i atal aflonyddu a thrais rhywiol, ac i ddefnyddio ein llais i herio agweddau a chredoau a all rymuso pobl eraill i wneud yr un peth.

**Pam rydym yn cynnal yr ymgyrch hon?**

Mae nifer bach o ymgyrchoedd a dulliau gweithredu sy'n seiliedig ar dystiolaeth wedi'u cyflwyno yn y DU, sydd wedi ceisio mynd i'r afael ag ymosodiadau rhywiol ac aflonyddu rhywiol yn yr economi liw nos drwy wneud y canlynol: herio cyflawnwyr i ystyried eu hymddygiad; uwchsgilio staff yn y diwydiant i adnabod ymddygiadau amhriodol neu unigolion agored i niwed ac ymateb iddynt; gwella mesurau diogelwch yn yr economi liw nos; ac annog ffrindiau i ofalu am ein gilydd.

Nod yr ymgyrch hon yw atal achosion o aflonyddu rhywiol drwy sicrhau newid diwylliannol mewn agweddau at aflonyddu rhywiol a thrais. Dengys ymchwil fod trais rhywiol yn deillio o gredoau ac agweddau at bobl eraill, sy'n cael eu meithrin drwy gael eu harfer a'u hatgyfnerthu dro ar ôl tro gan y rhai o'u cwmpas. Mae'r credoau a'r agweddau hyn yn datblygu'n eiriau llafar (e.e. aflonyddu rhywiol a jôcs) a all, heb ymyrraeth, ddatblygu'n ymddygiad corfforol (e.e. ymosodiad corfforol neu rywiol; McMahon a Banyard, 2012). Mae hyn yn golygu y gall aflonyddu rhywiol, os na chaiff ei herio, arwain at drais rhywiol.

Felly, bydd yr ymgyrch hon yn codi ymwybyddiaeth o ymddygiadau rhywiol niweidiol ac yn grymuso'r cyhoedd i herio'r ymddygiadau hyn ac ymateb iddynt mewn ffordd nad yw'n wrthdrawiadol, er mwyn sicrhau nad yw'r ymddygiadau hyn yn dderbyniol yn gymdeithasol. Drwy fynd i'r afael ag ymddygiadau lefel is (aflonyddu rhywiol), gellir atal ymddygiadau rhag datblygu'n niwed mwy difrifol (trais rhywiol), yn ogystal â'u hatal rhag digwydd yn y lle cyntaf.

Byddwn wrth ein bodd i weld ein partneriaid yn cefnogi'r ymgyrch hon ac yn helpu i ledaenu'r neges y gall pob un ohonom helpu i atal aflonyddu rhywiol.

**Cliciwch yma i lawrlwytho asedau'r ymgyrch**

**Cliciwch yma i lawrlwytho'r pecyn cymorth gydag awgrymiadau am bostiadau ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol**

Os na allwch gael mynediad i'r pecyn cymorth nac asedau'r ymgyrch, anfonwch e-bost at bryony.parry@wales.nhs.uk

Nid yw dolenni i wefannau, cynhyrchion na gwasanaethau allanol yn gyfystyr â chymeradwyaeth swyddogol gan Uned Atal Trais Cymru.

# YMCHWIL AC ADNODDAU

## TRAIS YN ERBYN MENYWOD A MERCHED, TRAIS DOMESTIG A CHAM-DRIN RHYWIOL



### Y Wybodaeth Ddiweddaraf am y Ddeddf Cam-drin Domestig, Strategaeth a Chanllawiau

Mae'r Swyddfa Gartref yn gweithio'n gyflym i roi'r holl ddarpariaethau sy'n weddill yn **Neddf Cam-drin Domestig 2021** ar waith. Mae amserlen ddechrau wedi'i chyhoeddi, sy'n amlinellu'r amseriadau ar gyfer rhoi pob un o ddarpariaethau'r Ddeddf ar waith a gellir dod o hyd iddi **yma** ar **GOV.UK**.

### Y Wybodaeth Ddiweddaraf am Gynnydd yr Adolygiad Trais ac Ymgyrch Soteria

Yn ddiweddar, cyhoeddwyd y wybodaeth ddiweddaraf am yr Adolygiad Trais ac Ymgyrch Soteria. **Cliciwch yma i weld y wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd**

### Y Fframwaith Cenedlaethol Plismona Trais yn Erbyn Menywod a Merched

Yn ddiweddar, cyhoeddodd Cyngor Cenedlaethol Prif Swyddogion yr Heddlu a'r Coleg Plismona y **Policing Violence Against Women and Girls National Framework**, sef un o'r argymhellion o arolygiad diweddar Arolygiaeth Cwnstabliaeth a Gwasanaethau Tân ac Achub Ei Mawrhydi i blismona Trais yn Erbyn Menywod a Merched. Nod y fframwaith yw cydgysylltu a safoni'r ymateb plismona i drais yn erbyn menywod a merched, gan ganolbwyntio ar atal, gweithredu i fynd ar drywydd cyflawnwyr a helpu i feithrin ymddiriedaeth menywod mewn plismona.

### Pecyn Cymorth Trais yn Erbyn Menywod a Merched

Ar y cyd â'r fframwaith cenedlaethol Trais yn Erbyn Menywod a Merched, cyhoeddodd y Coleg Plismona **becyn cymorth Trais yn Erbyn Menywod a Merched**. Mae hwn yn nodi'r troseddau presennol a'r offer ac adnoddau amddiffynnol y gall ymatebwyr yr heddlu eu hystyried ar gyfer categorïau gwahanol o droseddau trais yn erbyn menywod a merched, pan ddônt yn ymwybodol bod trosedd o'r fath wedi digwydd. Mae hwn yn cynnwys deunyddiau ar gyfer **aflonyddu ar y stryd**, bodloni'r ymrwymiad yn y Strategaeth Trais yn Erbyn Menywod a Merched y byddai'r Coleg yn darparu canllawiau newydd i swyddogion yr heddlu ar y pwnc hwn.

### Canllawiau i ymatebwyr cyntaf yr heddlu ar drais ar sail 'anrhydedd' fel y'i gelwir

Ochr yn ochr â'r ‘Fframwaith Trais yn Erbyn Menywod a Merched’ a'r Deunyddiau Aflonyddu ar y Stryd, mae'r Coleg Plismona hefyd wedi cyhoeddi **guidance for police first responders on so-called ‘honour’-based abuse.** Mae hynny'n bodloni rhan o ymrwymiad y Strategaeth Trais yn Erbyn Menywod a Merched ac er mwyn diwallu'r rhan arall, bydd y Coleg nawr yn datblygu cynnyrch cyfatebol i ymchwilwyr yr heddlu.

### Galw am arbenigedd i ddatblygu ymgyrch gwybodaeth gyhoeddus ar Drais yn Erbyn Menywod a Merched

Mae tîm Cysylltiadau'r Swyddfa Gartref yn parhau i ddatblygu ymgyrch gwybodaeth gyhoeddus i fynd i'r afael â thrais yn erbyn menywod a merched ac mae wrthi'n casglu astudiaethau achos, i dynnu sylw at straeon a phrofiadau go iawn ystod amrywiol o ddioddefwyr/goroeswyr, cyflawnwyr a gwylwyr. Byddem yn croesawu ac yn gwerthfawrogi

Nid yw dolenni i wefannau, cynhyrchion na gwasanaethau allanol yn gyfystyr â chymeradwyaeth swyddogol gan Uned Atal Trais Cymru.

unrhyw arbenigedd a gwybodaeth arall gan sefydliadau a goroeswyr yn fawr er mwyn llywio ein dull gweithredu. Os hoffech gael rhagor o wybodaeth a helpu i ddatblygu'r ymgyrch, cysylltwch â Daveena.Solanki@homeoffice.gov.uk ac India.Todd@homeoffice.gov.uk.

## RISG A NIWED I GRWPIAU SY'N AGORED I NIWED

### Adroddiad: 'Trawma-hysbys': Adnabod Iaith a Therminoleg Allweddol trwy Adolygiad o Lenyddiaeth'

Mae Hyb Cymorth ACE â Phrifysgol Glyndŵr Wrecsam (WGU) i ddatblygu'r adnodd hanfodol hwn i danategu eu taith i fod yn Brifysgol sydd wedi'i llywio gan drawma ac ACE. Mae'r adroddiad yn dangos, er bod gofal wedi'i lywio gan drawma wedi dod yn derm cyfarwydd, mae diffyg eglurder o ran ei ddiffiniad gweithredu. Mae hyn yn cael ei gydnabod fel rhwystr i greu gwasanaethau sy'n seiliedig ar drawma yn ogystal â chael effaith ar y gallu i weithredu a gwerthuso dulliau o'r fath yn gyson**.** **Cliciwch yma i ddarllen yr adroddiad.**

### Defnyddio datrysiadau y tu allan i'r llys a dargyfeirio ar y pen 'blaen'

Mae Crest Advisory wedi cyhoeddi adroddiad ar ddefnyddio datrysiadau y tu allan i'r llys a dargyfeirio ar y pen 'blaen'. Mae'r adroddiad hwn yn astudio effeithiolrwydd datrysiadau y tu allan i'r llys a rhaglenni dargyfeirio ac yn ystyried a oes cyfle i gynyddu'r defnydd ohonynt.
**Cliciwch yma i ddarllen yr adroddiad a gwylio'r weminar.**

### Cysylltiadau rhwng profiadau niweidiol yn ystod plentyndod, agweddau tuag at gyfyngiadau COVID-19 a phetruster am y brechlyn: astudiaeth drawstoriadol

Nododd ymchwil a gynhaliwyd gan Iechyd Cyhoeddus Cymru a Phrifysgol Bangor ymhlith oedolion yng Nghymru fod petruster am y brechlyn dair gwaith yn uwch ymhlith pobl a oedd wedi bod trwy bedwar math o drawma neu fwy yn ystod eu plentyndod nag ydoedd ymhlith y rhai nad oeddent wedi cael unrhyw drawma. **Cliciwch yma i ddarllen yr erthygl**.

## PLANT A PHOBL IFANC



### Adroddiad Newydd sy'n Hyrwyddo Atebion i Fynd i'r Afael â Thrais gan Bobl Ifanc a Diwygio Cyfiawnder Troseddol

Gwnaeth y fenter, a lansiwyd ym mis Ionawr 2021 gyda chyfres o weithdai, ddwyn ynghyd 67 o gymrodorion Salzburg Global, yn cynnwys ymgyrchwyr, cyn garcharorion, gwneuthurwyr polisi, swyddogion cyhoeddus, ymchwilwyr ac entrepreneuriaid cymdeithasol o UDA a 18 o wledydd o gwmpas y byd, a hynny er mwyn astudio a chreu dulliau arloesol o drawsnewid systemau barnwrol a charchar, yn ogystal â lleihau trais gan bobl ifanc a gwella diogelwch cymunedol.
**Darllenwch yr adroddiad yma.**
**Darllenwch y crynodeb gweithredol yma.**

Nid yw dolenni i wefannau, cynhyrchion na gwasanaethau allanol yn gyfystyr â chymeradwyaeth swyddogol gan Uned Atal Trais Cymru.

**Iaith Briodol: Camfanteisio ar Blant**

Mae iaith yn bwysig wrth siarad am blant a cham-fanteisio. Gall olygu'r gwahaniaeth rhwng diogelu plentyn yn gywir neu roi plentyn mewn mwy o berygl y bydd rhywun yn cam-fanteisio arno. Mae Cymdeithas y Plant yn gobeithio y bydd y canllawiau hyn yn dylanwadu ar arfer uniongyrchol gweithwyr proffesiynol, yn ogystal â diwylliant ehangach diogelu plant. **Darllenwch y canllawiau yma.**

## YN Y NEWYDDION

**Mae'r llywodraeth yn methu â threchu trais yn erbyn menywod**

Fel y cyhoeddwyd gan bapur The Guardian, "*Many of the solutions and the responses from government, and in the criminal justice system, have missed the mark. We haven't gone as far as we should have done. And we haven't moved as quickly in terms of making things better for women and girls who report abuse.*" **Cliciwch yma i weld yr erthygl lawn**

**Rhybudd o ddiffyg 'annerbyniol' o wiriadau wrth i droseddwyr gael yr hawl i fyw gyda dioddefwyr posibl yn ystod cyfyngiadau cyrffyw**

Fel y cyhoeddwyd gan bapur The Telegraph '*A woman was assaulted by a domestic abuser after he was confined to her home under a tagged curfew, an inspector has revealed - as he warned of a lack of checks.*' **Cliciwch yma i weld yr erthygl lawn**

**Trais yn Llundain: Plant mor ifanc â 10 oed yn ofni cael eu trywanu**

Cyhoeddodd y BBC fod Llundain wedi torri record newydd ddigroeso, sef bod 30 o bobl ifanc wedi cael eu trywanu i farwolaeth yn 2021, a chaiff traean o'r holl farwolaethau yn sgil trywanu yn Lloegr eu cofnodi gan yr Heddlu Metropolitanaidd. **Cliciwch yma i weld yr erthygl lawn.**

Os oes gennych adnoddau yr hoffech eu cynnwys yn yr e-fwletin, neu os anfonwyd yr e-bost hwn ymlaen atoch a hoffech danysgrifio, anfonwch e-bost at: bryony.parry@wales.nhs.uk

I gael rhagor o wybodaeth am ein gwaith, ewch i www.violencepreventionwales.co.uk/cy
I gadw llygad ar yr hyn rydym yn ei wneud, dilynwch ni ar Twitter @WalesVPU

Nid yw dolenni i wefannau, cynhyrchion na gwasanaethau allanol yn gyfystyr â chymeradwyaeth swyddogol gan Uned Atal Trais Cymru.